

amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon I

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed _____ Dyddiad geni _____

Enw _____

Cyfeiriad _____

Enw Arweinydd y Dosbarth _____



Storiâu Beiblaidd o'r Actau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

Stori I Pedr yn helpu Dorcas



DARLLENWCH
Actau 9: 32-43

Mae'r stori
yma'n sôn am:
**Dod â Dorcas
nôl yn fyw**

Aeth Pedr i lawer o drefi a phentrefi i sôn wrth bobl am Iesu Grist. Roedd gwraig o'r enw Dorcas yn byw mewn tref o'r enw Jopa ar lan y môr.

Beth oedd enw'r dref lle roedd Dorcas yn byw?

J _ _ _ .

Roedd Dorcas yn caru'r Arglwydd Iesu ac felly roedd hi'n gwneud ei gorau i helpu pobl eraill.

Un diwrnod, aeth Dorcas yn sâl a marw. Roedd pawb yn drist iawn. Aeth Pedr i dŷ Dorcas. Aeth i mewn a phenlinio a gweddio. Yna, dywedodd Pedr, "Dorcas, cod!"



Gafaelodd Pedr yn llaw Dorcas a'i helpu i godi. Roedd hi'n fyw ac yn iach unwaith eto! Ar ôl y wyrth arbennig hon, daeth llawer o bobl i gredu yn Iesu a dod yn Gristnogion.


Lliwiwch y llun.



DARLLENWCH
Actau 10: 9-23

Mae'r stori
yma'n sôn am:
Duw'n caru pawb

Stori 2 Pedr yn cael gweledigaeth




Ar ôl i Dorcas ddod nôl yn fyw, arhosodd Pedr yn Jopa am dipyn.

Tua canol dydd, roedd Pedr yn gweddio. Siaradodd Duw â Pedr a dweud wrtho bod Duw'n caru pawb mae wedi'u gwneud. Mae pawb yn arbennig i Dduw.

Beth oedd Pedr yn ei wneud tua canol dydd? G _____.

Daeth tri dyn a gofyn i Pedr fynd gyda nhw i gartref dyn o'r enw Cornelius. Roedd Cornelius yn perthyn i wlad arall. Doedd Pedr erioed wedi bod yng nghartref rhywun o wlad arall o'r blaen. Beth oedd e'n mynd i'w wneud? Cofiodd Pedr beth roedd Duw wedi'i ddweud wrtho – bod pawb yn arbennig iddo.

Drannoeth, aeth Pedr a'r tri dyn i weld Cornelius, ac i sôn wrtho am Iesu. Gofynnwch i Dduw'ch helpu chi i ddweud wrth bobl eraill am Iesu Grist.



**Lliwiwch lun y dynion a ddaeth at Pedr.
Yna, lliwiwch y geiriau hyn.**

“Do, carodd Duw y
byd gymaint nes iddo
roi ei unig Fab...”

Ioan 3: 16



DARLLENWCH
Actau 10: 23-48

Mae'r stori
yma'n sôn am:
**Duw'n achub
swyddog ym
Myddin Rhufain**

Stori 3 Pedr a Cornelius

Bu Pedr a'r tri dyn yn teithio am ddiwrnod cyfan cyn cyrraedd cartref Cornelius. Roedd Cornelius wedi gwahodd ei deulu a'i ffrindiau i gyd i'w gartref i wrando ar Pedr yn siarad.

“Duw ddywedodd wrtha i am anfon amdanat ti”, meddai Cornelius wrth Pedr. “Mae arnon ni i gyd eisiau clywed beth sydd ganddo i'w ddweud.”

Pwy ddywedodd wrth Cornelius am anfon i nôl Pedr? Rhowch linell o dan yr ateb cywir.

Simon Dorcas Duw



Lliwiwch Cornelius yn felyn a Pedr yn las.

Dechreuodd Pedr sôn wrth Cornelius a'i ffrindiau a'i berthnasau am Iesu Grist. Tra oedd Pedr yn siarad, credodd pawb a chafodd eu pechodau eu maddau. Roedd Pedr yn gwybod nawr bod gan bawb yn y byd hawl i glywed y Newyddion Da am yr Arglwydd Iesu!



DARLLENWCH
Actau 12: 1-19


Mae'r stori
yma'n sôn am:
**Duw'n ateb
gweddïau**

Stori 4 Pedr yn y carchar (eto)

Doedd y Brenin Herod ddim yn hoffi dilynwyr Iesu Grist. Trefnodd i ladd Iago. Yn fuan wedyn, cafodd Pedr ei roi yn y carchar.

Daeth ffrindïau Pedr oedd yn Gristnogion at ei gilydd i weddio drosto.

Ar y noson cyn mynd i'r llys, roedd Pedr yn cysgu. Roedd wedi'i gadwyno wrth ddau filwr. Yn sydyn, daeth angel a'i ddeffro! "Brysia," meddai'r angel, "Cod ar dy draed". Syrthiodd y cadwyni oddi ar arddyrnau Pedr. Cododd a dilyn yr angel trwy ddrws y carchar.



Pwy ddeffrodd Pedr? A ____ .

Roedd Pedr yn meddwl mai breuddwydio roedd e. Ond wrth i'r angel ei arwain allan o'r carchar, deallodd Pedr mai Duw oedd wedi'i achub!

Aeth Pedr i'r tŷ lle roedd ei ffrindïau'n gweddïo drosto. Pan gurodd ar y drws, atebodd Rhoda. Rhedodd i ddweud wrth y lleill, "Mae Pedr wrth y drws!" gwaeddodd. Doedden nhw ddim yn ei chredu i ddechrau. Pan agoron nhw'r drws, fe welon nhw Pedr! Roedden nhw i gyd yn canmol Duw am ateb eu gweddïau ac achub Pedr.

Lliwiwch y llun a thynnu llun ffenest carchar.

10

Marcïau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwillog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120